Vaughan Gething AS/MS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/VG/1382/20

Lynne Neagle AS
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

13 Mai 2020

Annwyl Lynne,

Ysgrifennais i'r Pwyllgor ym mis Hydref 2019, er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am wasanaethau iechyd meddwl amenedigol yng Nghymru yn sgil yr adroddiad ar Iechyd Meddwl Amenedigol yng Nghymru a gynhyrchwyd gan y Pwyllgor. Yn y llythyr hwnnw, dywedais y byddwn yn rhoi gwybodaeth bellach ymhen chwe mis.

Yn amlwg mae'r argyfwng COVID-19 wedi amharu ar y trefniadau adrodd arferol am y tro, ond roeddwn am fanteisio ar y cyfle hwn i ysgrifennu atoch i dynnu eich sylw at weithgarwch sy'n mynd rhagddo mewn nifer o feysydd.

Rwy'n awyddus i bwysleisio bod gwasanaethau amenedigol ymhlith y gwasanaethau iechyd meddwl 'hanfodol' hynny yr ydym wedi ei wneud yn glir bod yn rhaid iddynt barhau yn ystod y pandemig presennol. Yn sgil y prosesau yr ydym wedi eu rhoi ar waith gydag arweinwyr byrddau iechyd i adrodd yn wythnosol, gallaf gadarnhau bod gwasanaethau amenedigol cymunedol yn parhau'n weithredol, a bod cymorth ar gael i rieni yn ôl yr angen. Mae'n hanfodol bwysig bod teuluoedd yn gwybod bod cymorth iechyd meddwl amenedigol yn parhau ar gael, ac na ddylai'r pandemig COVID-19 fod yn rheswm dros oedi cyn ceisio'r gofal iechyd y mae ei angen. Rydym yn gwerthfawrogi sut mae Timau Iechyd Meddwl Amenedigol Cymunedol ar hyd a lled Cymru wedi dangos ymroddiad ac arloesedd wrth sicrhau bod gwasanaethau'n cynnig apwyntiadau digidol a thros y ffôn lle bynnag y bo hynny'n bosibl. Mae hyn yn galluogi teuluoedd i gael mynediad at gymorth mewn modd diogel, er bod cymorth wyneb yn wyneb yn parhau ar gael lle bo hynny'n angenrheidiol yn glinigol. Hoffwn gydnabod yr Wythnos Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl Mamau, drwy dynnu sylw at y gofal rhagorol a ddarperir i famau, tadau, partneriaid a'u teuluoedd yng Nghymru, gan bwysleisio bod gwasanaethau'n dal i gael eu darparu ar gyfer y rheini sydd eu hangen.

Mae'n anochel bod yr argyfwng COVID-19 wedi cael effaith ar gynlluniau ym maes iechyd meddwl amenedigol. Ysgrifennais atoch ar 18 Chwefror i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi ynglŷn â'r gwaith o ddatblygu darpariaeth cleifion mewnol i famau a babanod yng Nghymru. Yn y llythyr hwnnw, cadarnheais fod safle Tonna ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

wedi cael ei nodi fel lleoliad addas, a bod gwaith ar y gweill i ddatblygu uned chwe gwely i famau a'u babanod ar y safle hwnnw erbyn y gwanwyn 2021. Mae'r gwaith hwnnw'n parhau'n flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. Fodd bynnag, mae'r heriau sy'n codi oherwydd COVID-19, gan gynnwys y gofynion cadw pellter cymdeithasol o fewn contractau caffael, yn debygol o roi pwysau ar gostau ac achosi oedi. Mae swyddogion yn gweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe i sicrhau bod y gwaith datblygu yn parhau'n flaenoriaeth a bod eglurder ynghylch unrhyw newidiadau i amserlenni neu'r gyllideb.

Mae COVID-19 hefyd wedi effeithio ar weithgarwch monitro Llywodraeth Cymru, wrth i swyddogion fynd ati i wella eu dealltwriaeth o'r risgiau sy'n ymwneud â symleiddio prosesau llywodraethu, er mwyn caniatáu i staff ganolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau rheng flaen. Yn flaenorol, dywedais mai'r disgwyl oedd y byddai pob gwasanaeth yn bodloni Safonau Cymru Gyfan erbyn mis Mawrth 2020. Nid yw swyddogion wedi ceisio gwybodaeth ynglŷn â chydymffurfio. Fodd bynnag cafwyd y cylch diweddaru diweddaraf ei ddarparu gan wasanaethau ym mis Ionawr, cyn i'r trefniadau monitro gael eu llacio. O'r herwydd, gallaf innau ddarparu'r wybodaeth a gafwyd am y sefyllfa bryd hynny.

Yn ôl y data ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2019 i 30 Medi 2019, gwnaed 2,154 o atgyfeiriadau ar draws Cymru, gyda 1,415 o atgyfeiriadau'n cael eu derbyn. Mae amrywiadau'n dal i ddigwydd ar draws y byrddau iechyd, gyda nifer yr atgyfeiriadau a geir yn amrywio rhwng 203 a 477 ar gyfer y cyfnod hwn.

Yn ôl y data a roddwyd i Lywodraeth Cymru, cafodd 924 o fenywod eu trin am broblemau iechyd meddwl amenedigol gan Dimau Iechyd Meddwl Cymunedol, cafodd 35 o fenywod eu trin gartref neu gan dîm argyfwng, cafodd 15 o fenywod eu trin mewn uned i famau a babanod, a chafodd 14 o fenywod eu trin ar ward seiciatrig i oedolion, heb eu plentyn. Dylid cofio bod y ffigurau hyn yn rhai dangosol, gan fod y data'n anghyflawn. Er y bu gwelliannau mewn ansawdd ac yn y math o ddata sydd ar gael, bydd y gwaith o sicrhau bod yr wybodaeth a ddarperir yn fwy trylwyr yn parhau ar ôl yr argyfwng COVID-19. Mae nifer yr achosion o fenywod sy'n cael eu trin mewn uned i famau a babanod yn parhau'n gyfyng, ac mae'r adborth yn dal i awgrymu bod y prinder cyfleusterau mewn lleoedd addas yn hytrach na diffyg yn y galw sy'n bennaf gyfrifol am y nifer isel o fenywod sy'n cael eu trin mewn uned o'r fath. Mae'r data ar gyfer y cyfnod hwn yn dangos bod 12 o fenywod wedi gwrthod lleoliad mewn uned i famau a babanod am resymau sy'n ymwneud â phellter.

Fel rhan o'r wybodaeth ddiweddaraf, darparodd y gwasanaethau amenedigol wybodaeth am y cynnydd a wnaed o ran bodloni Safonau Cymru Gyfan. Byddaf yn ceisio sicrwydd pellach ar ôl inni ddychwelyd at drefniadau monitro arferol. Yn y datganiadau diweddaraf, dywedodd y gwasanaethau y bu cynnydd da o ran bodloni'r safonau hyn. Er bod angen gwneud rhagor o waith cyn iddynt gydymffurfio'n llawn, yn bennaf mewn perthynas â Safon 8 sy'n ymwneud â hyfforddiant, mae gan bob bwrdd iechyd fesurau ar waith ar gyfer bodloni pob safon, er y gallai'r amgylchiadau presennol effeithio ar amserlenni'r gwaith hwnnw. Byddwn yn gweithio gyda phob bwrdd iechyd i sicrhau bod eu mesurau'n effeithiol er mwyn bodloni'r safonau hyn.

Rwy'n gobeithio bod yr wybodaeth uchod yn darparu sicrwydd, a byddaf yn rhoi rhagor o wybodaeth pan fo hynny'n briodol. Rwy'n siŵr y byddech am ymuno â mi i fanteisio ar y cyfle hwn i gynnig ein diolch a'n gwerthfawrogiad i staff yr holl wasanaethau, sy'n parhau i ymroi i ddarparu gofal a chymorth o ansawdd i rieni a'u teuluoedd yn ystod y cyfnod heriol hwn.

Yn gywir,

Vaughan Gething AS/MS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services